
IECHYD A GOFAL DIGIDOL CYMRU

Cynllun Ystadau Tair Blynedd – 2022-25



Cynnwys

1. Rhagarweiniad & Diben 3
2. Yr Ystâd Bresennol 4
3. Tybiaethau 5
4. Arwynebedd Llawr, Lle ar gyfer Desgiau & Dyraniadau Staff 6
5. Dadansoddiad o'r Sefyllfa Bresennol a Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol 7
6. Trefniadau Prydlesi Presennol 10
7. Opsiynau 11
8. Cydweithio gyda Sefydliadau Partner 13
9. Crynodeb 14

ATODIAD A – Lluniau o'r Swyddfeydd 15

ATODIAD B - Cost fesul desg ar sail defnydd presennol (nifer y desgiau a ddefnyddir fesul safle) 16

ATODIAD C – Presenoldeb yn ôl safle Mehefin 2022 17

ATODIAD D 19

1. Rhagarweiniad & Diben

Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) 6 swyddfa (gweler y manylion yn Adran 2) ac mae nawr yn adeg briodol i adolygu'r ystâd o ran lleoliad, arwynebedd gofynnol ac addasrwydd. Mae nifer o resymau pam mae angen cynnal yr adolygiad hwn ar yr adeg hon, ac ymhlith y rhain mae'r canlynol:

- Heriau datgarboneiddio a'r angen i leiafu ôl troed DHCW a chefnogi'r targed sero net a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Cefndir o bwysau sylweddol o ran chwyddiant ar gostau cyfleustodau a chynnydd mewn costau gweithredol.

- Arweiniodd y pandemig Covid-19 at sefyllfa lle gwelwyd mwyafrif y staff yn gweithio o bell yn ystod y tair blynedd diwethaf a phan fyddant yn y swyddfa, mae mwy o angen am gyfleusterau cyfarfod na lle ar gyfer desgiau. Mae cyflwyno model gweithio hybrid yn golygu y caiff staff weithio o bell o hyd ond cânt eu hannog i fynychu'r swyddfa o leiaf unwaith yr wythnos. Mae hyn yn amlwg yn golygu bod yr angen am le ar gyfer desgiau wedi gostwng ond bod gofynion swyddfeydd wedi newid.

- Mae DHCW yn sefydliad digidol blaenllaw a newydd sy'n prysur newid ac sydd ag ôl troed allweddol yn y brifddinas. Mae'n creu pwynt cyfarfod canolog ar gyfer llawer o sefydliadau tu mewn i'r GIG a thu allan iddo.

- Mae angen i DHCW resymoli ei ystâd fel ei fod yn gwneud y mwyaf o'r gweithfannau. Mae ar DHCW ddyletswydd i wneud y defnydd gorau o'i adnoddau ariannol ac felly mae angen iddo sicrhau ei fod yn dangos gwerth am arian.

- Ar lefel weithredol, mae argaeledd storio yn ein canolfannau Data newydd o'r fath fel bod angen ystyried lle storio gweithredol a lle gweithio (yn dibynnu ar y strategaeth storio ac atgyweirio gliniaduron).

- Mae'r brydles ar Dŷ Mamhilad yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2023 a daeth y brydles ar Barc Bocam i ben ym mis Ionawr 2021 (mae DHCW yn parhau i feddiannu Parc Bocam o dan Sicrwydd Daliadaeth ar sail telerau ac amodau blaenorol). Caiff opsiynau ar gyfer y safleoedd hyn eu harchwilio.

- Mae DHCW (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru gynt) yn bodoli ers dros 10 mlynedd ac mae strwythurau a gwasanaethau wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i ddatblygiadau sylweddol ar lefel Cymru gyfan.

- Yn fwyaf pwysig, y strategaeth i DHCW yn y dyfodol yw denu talent o bob rhan o Gymru i weithio i'r sefydliad a chreu'r amgylchedd gwaith cywir i ffynnu.

- Bydd y ddogfen hon yn nodi'r cwmpas yn glir, gan gynnwys yr holl dybiaethau a wnaed a chan ystyried pob opsiwn ymarferol ac yn argymell ffordd arfaethedig ymlaen i DHCW.

Bydd y dadansoddiad yn ystyried yr opsiwn gorau (yn gysylltiedig ag ystyriaethau amgylcheddol, ariannol a rhai busnes, gan ystyried ffyrdd diwygiedig o weithio) o ran defnyddio/rhyddhad adeiladau presennol ar draws yr Ystâd. Heb weld strategaeth gweithlu'r dyfodol a'r model gweithredu, nid yw'r gwaith hwn wedi ystyried goblygiadau seiberddiogelwch, y ddesg wasanaeth na gofynion cynnyrch yn fanwl.

Cynhelir dadansoddiad costau dros gyfnod o 10 mlynedd er mwyn gwastadu goblygiadau byrdymor unrhyw bosibilrwydd o adleoli, yn gysylltiedig ag adeiladau (dadfeilio, adnewyddu, ac ati) ac yn gysylltiedig â staff (costau teithio gormodol, parcio, ac ati)

2. Yr Ystâd Bresennol

Oherwydd ei gylch gwaith ar draws Cymru gyfan, mae gan DHCW bresenoldeb ar draws y wlad. Ar hyn o bryd, lleolir staff mewn swyddfeydd mewn nifer o leoliadau, ac amlygir y rhain yn y tabl canlynol:

	Statws Meddiannu	Nifer y Staff Canolfan a Nodir
Media Point, Yr Wyddgrug	Dan brydles	54
Parc Bocam, Pencoed	Dan brydles	36
Tŷ Glan-yr-Afon (TGYA), Caerdydd	Dan brydles	713
Tŷ Mamhilad, Pont-y-pŵl	Dan brydles	55
Tecniwm 2, Abertawe	Dan brydles	124
Castlebridge 2, Caerdydd	Dan brydles	(yn rhan o ffigurau TGYA)
Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru	Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG)	7
Cyfanswm		**989**

Ffynhonnell: gweithlu 2021/22

At ddiben y Strategaeth hon, mae Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru wedi'i hepgor am fod hwn yn adeilad a gaiff ei berchen a'i reoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac rydym yn ei feddiannu o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) sy'n cynnwys darpariaeth cymorth Gwasanaethau Cleientiaid ar y safle. Fodd bynnag, dylid ystyried y gofyn parhaus am gyfleuster yng nghanol De Cymru sy'n caniatáu ar gyfer danfoniadau ar raddfa fawr a chyfleusterau gweithdy mewn unrhyw ystyriaethau am ystadau yn y dyfodol, gan gydnabod y ffaith bod ein presenoldeb yn Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru yn dibynnu ar barhad i argaeledd y lle i ni.

Mae Media Point, yr Wyddgrug, sef Canolfan DHCW yng Ngogledd Cymru, yn agored i sefydliadau GIG eraill sy'n meddu ar gytundebau am le ar sail desgiau. Lle gweithio ar y cyd yw hwn, sy'n gweithio'n dda iawn.

Mae'r sefydliad yn defnyddio Dwy Ganolfan Ddata sydd, yn rhinwedd eu natur, yn gorfod bod mewn lleoliadau diogel. Mae Strategaeth 'Cwmwl yn Gyntaf' a gaiff effaith ar ôl troed y Ganolfan Ddata wrth i ni symud ymlaen. Ar hyn o bryd, mae'r sefydliad yn defnyddio canolfannau data cenedlaethol mewn cyfleusterau penodedig yng Nghasnewydd a Phentre'r Eglwys.

Mae DHCW yn ymrwymedig i gynnwys Datgarboneiddio a diweddariadau effeithlonrwydd ynni ar draws yr Ystâd yn unol â thargedau blynyddol ein Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio.

Gweler Atodiad A am luniau o'n swyddfeydd.

3. Tybiaethau

Mae nifer o dybiaethau wedi'u gwneud wrth lunio'r cynllun hwn. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Bydd yr ôl troed newydd yn creu'r amgylchedd gorau posibl ar gyfer sefydliad digidol arloesol a bydd yn darparu gweithle effeithiol i staff at y dyfodol.
- Bydd y cynllun yn cyd-fynd â'r uchelgais i sector cyhoeddus Cymru fod yn sero net erbyn 2030.
- Bydd gweithio hybrid yn parhau, a bydd gofyn i staff fynychu swyddfa DHCW unwaith yr wythnos.
- Mae niferoedd staff yn cynyddu'n gyflym ac ar hyn o bryd mae nifer fawr o swyddi gwag yn y sefydliad. Bydd niferoedd staff yn parhau i godi dros y 5 mlynedd nesaf.
- Bydd Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn parhau i chwilio am hybiau lleol i ddarparu lle gweithio ar y cyd.
- Ni cheisir unrhyw le swyddfa pellach a bydd DHCW yn parhau i weithredu trefniant gweithio hybrid lle caiff staff weithio o bell ond ymweld â swyddfeydd hefyd yn rheolaidd.
- Bydd DHCW yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddod o hyd i le yn lleol ar gyfer desgiau a fydd yn cynorthwyo cydweithio.
- Ni fydd yn fwriad gan DHCW dynnu nôl o brydlesi sydd eisoes yn eu lle am y byddai hyn yn golygu cosbau ariannol sylweddol; y nod yw ceisio dangos gwerth am arian.
- Mae gan y swyddfeydd yng Nghaerdydd, yr Wyddgrug ac Abertawe dros dair blynedd i redeg ar eu prydlesi ac felly ni fydd y strategaeth hon yn effeithio arnynt (ond cânt eu cynnwys at ddibenion cymharu) a byddant yn rhan o ystyriaethau tymor hwy.
- Nid yw'r strategaeth hon yn trafod y Canolfannau Data sydd y tu allan i'r prif swyddfeydd. Fodd bynnag, tybir y bydd gofyn am y Canolfannau Data (ystafelloedd y gweinyddion) yn rhan o'r prif swyddfeydd o hyd am ran sylweddol o unrhyw drefniant newydd.

- Mae Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru yn parhau i fod ar gael fel canolfan bwysig ar gyfer Gwasanaethau Cleientiaid.

4. Arwynebedd Llawr, Lle ar gyfer Desgiau & Dyraniadau Staff

Mae'r arwynebedd llawr mewn swyddfeydd, capasiti ar gyfer desgiau, a nifer y staff yn y swyddfa fel canolfan fel a ganlyn:

	Arwynebedd llawr mewn m^2	Nifer y Desgiau	Nifer y Staff	+/-
Media Point, Yr Wyddgrug	861.45	72	52	-30%
Parc Bocam, Pencoed	300	34	36	6%
Tŷ Glan-yr-Afon (TGYA), a Castlebridge, Caerdydd	3879.5	429	712	66%
Tŷ Mamhilad, Pont-y-pŵl	803.85	59	55	-7%
Tecniwm 2, Abertawe	847.27	109	124	14%
Cyfanswm	**6692.07**	**703**	**979**	**39%**

Nodiadau:
Mae meinciau gwaith ar gael hefyd yn Castlebridge 2 lle gellid darparu lle i hyd at 40 o bobl ar y tro.
Mae'r ffigur ar gyfer Media Point yn gysylltiedig â staff DHCW ond mae pobl yna gyda ni o sefydliadau eraill sy'n gweithio o'r swyddfa yn rheolaidd, er bod lle dros ben ar gael o hyd hefyd.
Mae Tŷ Glan-yr-Afon a Castlebridge wedi'u rhoi gyda'i gilydd am y nodir mai'r un ganolfan sydd gan staff sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y gost fesul desg ar bob safle yn 2021/22:

	Costau Rhedeg	Rhent	Arwynebedd llawr mewn m^2	Desgiau	Lle fesul desg mewn m^2	Cost gros fesul desg	Cost net fesul desg (rhent yn unig)
Media Point, Yr Wyddgrug	270,130	90,000	861.45	72	11.96	£3,752	£1,250
Parc Bocam, Pencoed	89,635	32,000	300	34	8.82	£2,636	£941
Tŷ Glan-yr-Afon (TGYA), Caerdydd	978,967	201,760	3,632.60	401	9.06	£2,441	£503
Castlebridge 2, Caerdydd	124,440	44,572	247.40	68	8.84	£4,444	£655
Tŷ Mamhilad, Pont-y-pŵl	364,019	92,000	803.85	59	13.62	£6,170	£1,559
Tecniwm 2, Abertawe	288,063	73,000.00	847.27	109	7.77	£2,643	£670
Cyfanswm	**2,311,122**	**655,116**	**6,692.07**	**703**	9.52	£3,288	£932

Noder

Mae'r swm ar gyfer Castlebridge yn cynnwys meinciau gwaith

Mae hyn yn dangos yn glir mai'r lle swyddfa ym Mamhilad sydd leiaf cost-effeithiol.

Mae tabl sy'n cynnwys y gost wirioneddol fesul desg a ddefnyddir (ar sail ffigurau presenoldeb Mehefin 2022) wedi'i gynnwys fel Atodiad B.

5. Dadansoddiad o'r Sefyllfa Bresennol a Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol

Ers 11 Ebrill 2022, mae DHCW wedi annog pob gweithiwr i fynd i swyddfa DHCW am o leiaf un diwrnod gwaith yr wythnos.

Rydym wedi lleihau nifer y desgiau ar draws yr Ystâd ac wedi creu rhagor o le cyfarfod. Neilltuir 'cymdogaethau' i dimau lle gallant archebu desg ac eistedd gydag aelodau eraill o'u tîm. Mae nifer fawr o ddesgiau poeth ar gael hefyd i staff eu defnyddio pan fyddant yn mynd i swyddfeydd ar gyfer cyfarfodydd neu at ddibenion eraill.

Diben mynd i swyddfa yw caniatáu rhyngweithio anffurfiol sy'n creu gwaith tîm cadarnach, adeiladu tîm a gwell perthnasau gwaith. Mae'n hwyluso cydweithio effeithiol i gynnal a gwella cyfathrebu a pherthnasau rhwng timau traws-swyddogaethol ac mae'n caniatáu gwirio llesiant.

Mae arweiniad a gynhyrchwyd ar Weithio Hybrid ar gael i bob gweithiwr ar Sharepoint DHCW, sy'n esbonio'r broses o archebu desgiau, llefydd parcio ac ystafelloedd cyfarfod.

Erbyn diwedd Mehefin ac yn unol ag arweiniad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), adferwyd capasiti desgiau yn swyddfeydd DHCW i 100% (yn dilyn cyfnod lle roedd llai o ddesgiau ar gael i ganiatáu pellter cymdeithasol). At ei gilydd, gostwngwyd bron i 20% ar nifer y desgiau o'u cymharu â'r nifer arferol cyn y pandemig i ganiatáu mwy o le mwy effeithlon yn y swyddfa ar gyfer cydweithio.

Mae'r Grŵp Ffyrdd Newydd o Weithio wedi cynnal dau ddigwyddiad 'TenTalks' hyd yma i gymryd unrhyw gwestiynau am weithio hybrid, sydd wedi denu niferoedd da. Mae'n fwriad cynnal un arall yn ystod yr Haf, wedi i'r adolygiad Ystadau gael ei gynnal, i gadarnhau'r trefniadau gwaith tymor hwy ar gyfer pob gweithiwr.

Mae Polisi Gweithio Hybrid wedi'i ddrafftio gan dîm traws-swyddogaethol, gan gynnwys cydweithwyr o'r undebau llafur. Mae hyn yn mynd rhagddo drwy broses cadarnhau polisïau DHCW a bydd ar gael i bob gweithiwr pan fydd penderfyniad wedi'i wneud ar y trefniadau gwaith tymor hwy.

Mae arolwg gweithwyr wedi'i ddosbarthu'n ddiweddar i bob gweithiwr ei gwblhau**.** Diben yr arolwg yw gwirio bod gweithio hybrid yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant gweithwyr a chynhyrchiant timau. Bydd y canlyniadau'n rhan annatod o'r penderfyniad terfynol ar y trefniadau gweithio hybrid tymor hwy.


Mae modiwl hyfforddi ar sut i reoli timau hybrid a gwaith unigolion yn rhan o dimau hybrid yn parhau i gael ei gyflwyno, gyda'r disgwyl y bydd pawb yn ei fynychu.

Mae dadansoddiad wedi'i gynnal gan ddefnyddio'r data sydd ar gael o'n system fynediad (a gyfyngwyd i dri safle) i asesu lefel presenoldeb yn y swyddfa. Cydnabyddir bod rhai staff yn gweithio yn y swyddfa'n ddyddiol ac felly byddai hynny'n cyfrif am bum ymweliad yr wythnos, felly adolygwyd nifer y bobl sy'n mynd:

Canran y staff sy'n mynd i'r swyddfa unwaith neu fwy yr wythnos: **34% (333 o staff)**


Mae'r graff isod yn dangos nifer y gweithwyr ar y safle yn ddyddiol yn ystod mis Mehefin 2022, gan gynnwys staff gyda desg barhaol yn y swyddfa a rhai ar rota, ers dechrau'r trefniant interim:

Defnydd o Safleoedd, Mehefin 2022
Presenoldeb cyfartalog (ar sail diwrnodau gwaith arferol): 120




Wedi'i gynnwys hefyd mae data ar gyfer y cyfnod yn cynnwys Ebrill a Mai 2022, pan ddechreuodd DHCW annog staff i fynd i'r safle'n rheolaidd:

Defnydd o Safleoedd, Ebrill 2022
Presenoldeb cyfartalog (ar sail diwrnodau gwaith arferol): 86



Defnydd o Safleoedd, Mai 2022
Presenoldeb cyfartalog (ar sail diwrnodau gwaith arferol): 101



Mae graffiau sy'n rhoi manylion pellach am bresenoldeb fesul safle wedi'u cynnwys fel Atodiad C.

Mae'r graffiau'n dangos bod niferoedd wedi cynyddu'n gynyddrannol o fis i fis ac wrth adolygu'r system archebu, rhagwelir y byddant yn gwastadu cyn bo hir gydag amrywiadau i'w priodoli i ddigwyddiadau mawr sydd wedi'u trefnu. Bydd gwaith pellach yn mynd rhagddo i ddatblygu lle cyfarfod ychwanegol i ateb yr angen hwn.

Wedi'u cynnwys yn y ffigurau a ddangosir yn y graffiau mae staff sydd wedi gofyn i gael gweithio'n barhaol yn y swyddfa a staff y mae gofyn iddynt ddod i'r safle ar sail rota:

Safle	Nifer y staff gyda desg wedi'i neilltuo	Nifer y staff ar rota fesul dydd
Tŷ Glan-yr-Afon	19	12
Media Point	6	-
Tecniwm 2	2	2
Mamhilad	4	3

Castlebridge	3	-

Mae'r ffigur o 30% a ddyfynnir ym mharagraff 2.2 yn ymwneud â nifer yr unigolion sy'n dod i'r safle yn cynnwys y rhai yn y ddau gategori hyn. Nid yw'r holl staff sydd ar rota wedi'u cofnodi fel rhai sydd ar rota, felly maent wedi'u cynnwys yn y ffigurau cyffredinol fel staff sy'n mynd i'r safle.

Mae gofyn i rai timau fod â phresenoldeb rheolaidd ar y safle a rheolir hyn drwy drefniadau rota. Y timau hyn yw Gwasanaethau Cleientiaid, Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Seilwaith Craidd.

Nododd yr Asesiad Gweithio Hybrid (a gyflwynwyd i'r Cyfarwyddwyr mewn Sesiwn Strategol ar 11 Awst 2022) yr angen i sefydlu gweithgor i adolygu trefniadau swyddfa a bydd hyn yn cynnwys y gofyniad i symud o lefydd gwaith sy'n drwm ar ddesgiau i amgylchedd gwaith sy'n drwm ar lefydd cyfarfod/cydweithio yn ein holl swyddfeydd. Cam gweithredu cychwynnol yw ad-drefnu un llawr yn Nhŷ Glan-yr-Afon i adlewyrchu'r strwythur Gweithredol newydd, i ddarparu amgylchedd mwy modern, addas at y diben, gan ryddhau adain o'r adeilad ar gyfer lle cyfarfod ychwanegol (rhagwelir cost o hyd at £200k).

Mae angen canolfannau lleol ar y Gwasanaethau Cleientiaid er mwyn hwyluso cymorth ar gyfer lleoliadau gofal sylfaenol ar draws Cymru, gan gynnwys cyfleusterau storio, gofod adeiladu ac ystafelloedd gweinyddion ac ar hyn o bryd lleolir y rhain yn yr Wyddgrug, Mamhilad, Caerdydd, Pencoed ac Abertawe. Bydd angen i hybiau lleol amgen gael eu cynnig os/pan na fydd y safleoedd presennol ar gael mwyach.

Mae'r gofod swyddfa yn Tecniwm 2, Media Point a Castlebridge 2 yn gymharol fodern ac yn addas ar gyfer ffyrdd hyblyg o weithio, fodd bynnag mae swyddfeydd Tŷ Glan-yr-Afon yn fwy traddodiadol a byddai o fudd eu moderneiddio er mwyn rhoi naws newydd iddynt i adlewyrchu lle gweithio digidol modern a gwell cyfleusterau cyfarfod i ymateb i ddull gweithio hybrid a hwyluso cydweithredu. Y bwriad yw caffael gwasanaeth ymgynghori allanol i lywio'r cynlluniau hyn.

6. Trefniadau Prydlesi Presennol

Nodir y trefniadau prydlesi isod.

Tŷ Glan-yr-Afon
Adolygiad rhent 8 Rhagfyr 2022. Y brydles i dod i ben Mawrth 2025.

Castlebridge
Y brydles yn dod i ben Mawrth 2025

Uned 17 Parc Bocam, Pencoed
Y brydles wedi dod i ben 3 Ionawr 2021 – mae DHCW wrthi'n cynnal hyn o dan ddarpariaethau'r sicrwydd daliadaeth yn Adran 24 o Ddeddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954. Bydd y brydles hon yn parhau hyd nes i'r naill ochr neu'r llall ddod â'r denantiaeth i ben gyda rhybudd ffurfiol.

Tŷ Mamhilad
Dyddiad y Daw'r Brydles i Ben – 28 Gorffennaf 2023 - Bydd y brydles hon yn parhau ar ôl y dyddiad y daw'r brydles i ben o dan ddarpariaethau'r sicrwydd daliadaeth yn Adran 24 o Ddeddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954 oni bai bod DHCW yn gadael yr adeilad cyn y dyddiad y daw'r brydles i ben neu hyd nes i'r naill ochr neu'r llall ddod â'r denantiaeth i ben drwy gyflwyno rhybudd ffurfiol.

Tecniwm 2
Y brydles yn dod i ben Mawrth 2026.

Media Point
Opsiwn i gael hoe yn y brydles rhwng Ionawr 2026 a Ionawr 2027. Y brydles yn dod i ben Ionawr 2031.

Mae cyfle i adael Mamhilad yn ystod 2023 pan ddaw'r brydles i ben, felly caiff opsiynau ar gyfer y safle hwn eu hystyried yng ngoleuni ffyrdd presennol o weithio a niferoedd is yn mynd i'r safle o ganlyniad, a thrwy ymgynghori â staff.

7. Opsiynau

Mae presenoldeb presennol yn y swyddfeydd yn awgrymu y byddai llai na 40% o'n hôl troed presennol yn ddigon ar gyfer staff sy'n mynd i'r safleoedd ac sydd angen lle desg. Fodd bynnag, nid yw'n ystyried y gwaith recriwtio parhaus a chyfrif pen sy'n prysur gynyddu, na hefyd yr angen i symud i weithle mwy modern gyda gwell cyfleusterau cyfarfod i hwyluso cydweithio.

Amcangyfrifir arbedion a chostau yn gysylltiedig â gwneud newidiadau i Ôl Troed Ystadau DHCW isod (noder bod angen gwaith pellach i fireinio hyn):

Bydd cau Parc Bocam yn arwain at arbedion blynyddol o ychydig dros £16k:

Opsiynau	**Cau Parc Bocam Costau 10 Mlynedd**
Arbedion Costau Uniongyrchol[1]	(£320,000)
Costau Ychwanegol yn gysylltiedig ag Adeiladau	
Dadfeilio[2]	£32,290
Costau Symud[3]	£20,000
Cyfanswm	**£52,290**
Costau Cytundebol Ychwanegol	
Teithio Gormodol[4]	£35,868
Parcio[5]	£68.890
Cyfanswm	**£104,758**
(Arbedion) / Costau Ychwanegol	**(£162,952)**

[1] Mae'r arbedion hyn yn gysylltiedig â chostau rhent adeiladau safonol yn unig; tybir y bydd costau gweithredu eraill yn cynyddu ar y safleoedd eraill o ganlyniad i newid canolfan. Nid yw hyn mwyach yn arbediad refeniw oherwydd IFRS 16.
[2] Amcangyfrifon yw'r rhain gan Ystadau GIG Cymru ar £10 fesul troedfedd sgwâr.
[3] Amcangyfrifon yw'r rhain gan Ystadau GIG Cymru.
[4] Cyfrifir y rhain ar sail 36 o staff yn symud o Barc Bocam i Dŷ Glan-yr-Afon a mynd i'r safle un diwrnod yr wythnos. Mae'r rhain am gyfnod o 4 blynedd.
[5] Mae'r costau hyn ar gyfer y 36 o staff sy'n symud o Barc Bocam i Dŷ Glan-yr-Afon am gyfnod o 4 blynedd ac angen talu am barcio un diwrnod yr wythnos.

Bydd cau Mamhilad yn arwain at arbedion blynyddol o oddeutu £62k. Fodd bynnag, dylid nodi y gallai fod gofyn lle amgen neu le cadw ar gyfer Gwasanaethau Cleientiaid os bydd DHCW yn penderfynu gadael, er mwyn bod ganddynt bresenoldeb lleol yn Ne Ddwyrain Cymru felly cynghorir y dylid cynnwys ffigur bras o £20k y flwyddyn (ar sail lle masnachol o 1650 troedfedd sgwâr ar gost o £6.50 fesul troedfedd sgwâr a chostau gweithredu ym Mharc Diwydiannol Mamhilad) i adlewyrchu hyn, gan leihau'r arbediad i £42k y flwyddyn.

Opsiynau	**Cau Mamhilad Costau 10 Mlynedd**
Arbedion Costau Uniongyrchol[1]	(£920,000)
Costau Ychwanegol yn gysylltiedig ag Adeiladau	
Dadfeilio[2]	£86,530
Costau Symud[3]	£30,000
Cyfanswm	**£116,530**
Costau Cytundebol Ychwanegol	
Teithio Gormodol[4]	£78,478
Parcio[5]	£105,248
Cyfanswm	**£183,726**
(Arbedion) / Costau Ychwanegol	**(£619,744)**

[1] Mae'r arbedion hyn yn gysylltiedig â chostau rhent adeiladau safonol yn unig; tybir y bydd costau gweithredu eraill yn cynyddu ar y safleoedd eraill o ganlyniad i newid canolfan. Nid yw hyn mwyach yn arbediad refeniw oherwydd IFRS 16.
[2] Amcangyfrifon yw'r rhain gan Ystadau GIG Cymru ar £10 fesul troedfedd sgwâr.
[3] Amcangyfrifon yw'r rhain gan Ystadau GIG Cymru.
[4] Cyfrifir y rhain ar sail 55 o staff yn symud o Famhilad i Dŷ Glan-yr-Afon a mynd i'r safle un diwrnod yr wythnos. Mae'r rhain am gyfnod o 4 blynedd.
[5] Mae'r costau hyn ar gyfer y 55 o staff sy'n symud o Famhilad i Dŷ Glan-yr-Afon am gyfnod o 4 blynedd ac angen talu am barcio un diwrnod yr wythnos.

Mae budd ychwanegol posibl i leihau ôl troed yr Ystâd, sef **ôl troed carbon is,** a fyddai **24% yn is** petaem ni'n gadael swyddfeydd Mamhilad a Pharc Bocam, a dangosir hyn yn y data sydd wedi'i gynnwys yn y tabl sydd wedi'i atodi fel Atodiad D.

8. Cydweithio gyda Sefydliadau Partner

Gall partneriaethau fod yn ffordd ragorol o rannu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, sy'n gallu cefnogi a gwella darparu gwasanaethau.

Mae DHCW yn awyddus i greu partneriaethau gwaith pellach gydag asiantaethau'r llywodraeth, sefydliadau academaidd, cyrff proffesiynol a'r sector preifat ar draws Cymru a thu hwnt. Ar hyn o bryd mae nifer o bartneriaethau yn eu lle, yn bennaf gyda sefydliadau academaidd gyda golwg ar gynnal ymchwil, cefnogi datblygiad staff a hyrwyddo arloesedd. Drwy weithio mewn partneriaeth, ein nod yw bod yn arweinydd byd-eang wrth ddarparu gofal digidol i gleifion. Byddai rhannu lle swyddfa yn ased gwerthfawr yn hyn o beth.

Mae cyfle i rannu gofod swyddfa yn Ne Cymru i ganiatáu creu hybiau gan efelychu'r trefniadau yng Ngogledd Cymru lle rydym yn rhannu ein gofod swyddfa gyda gweithwyr GIG eraill. Yn arbennig, mae cyfle i DHCW rannu eu gofod yn Nhŷ Glan-yr-Afon lle mae capasiti gwag. Bydd hyn yn galluogi staff i weithio'n lleol lle bo angen, gan leihau'r angen i deithio a'r effaith negyddol a gaiff hyn ar yr amgylchedd.
Ymhlith y partneriaid/lleoliadau posibl ar gyfer cyd-leoli mae'r canlynol:

- Hyb Gwyddorau Bywyd Cymru
- Technoleg Iechyd Cymru
- Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru
- Sefydliadau GIG eraill
- Llywodraeth Cymru

Mae llu o gyfleoedd i rannu gofod gydag academia drwy'r Cytundeb Cydweithredu sydd yn ei le gyda Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI) sy'n cysylltu DHCW â sefydliadau academaidd gan gynnwys Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol De Cymru. Bydd pobl sydd wedi'u lleoli mewn swyddfeydd a gaiff eu cau yn gallu manteisio ar y cyfleoedd hyn. Mae DHCW yn parhau i weithio gyda WIDI, Comisiwn Bevan a'r Hyb Gwyddorau Bywyd a Gwelliant Cymru ymhlith eraill.

Mae landlord TYGA wedi mynegi parodrwydd i ystyried ail-drafod y brydles i ganiatáu i DHCW ostwng faint o le a logir, gan gynnig cyfle i'r landlord ddechrau prydles gyda thrydydd parti ar gyfer unrhyw le nad oes ei angen ar DHCW (neu sefydliad partner). Yn y misoedd diwethaf, mae DHCW wedi derbyn ymholiadau gan sawl sefydliad GIG am y posibilrwydd o gydleoli mewn un o swyddfeydd presennol DHCW a fyddai'n mynd i'r afael â'r tanddefnydd presennol o ddesgiau.

Gallai DHCW hefyd ystyried defnyddio gofod "deori" petai parodrwydd i hyn gael ei gyllido.

9. Crynodeb

Oherwydd trefniadau gweithio diwygiedig (Hybrid), mae'r ddibyniaeth ar y swyddfa wedi newid o fod yn amgylchedd desgiau i fod yn un o le cydweithredu. Hefyd, oherwydd presenoldeb is yn y swyddfa gan fwyafrif y staff, dylid rhesymoli'r Ystâd lle bo hynny'n bosibl.

Bydd DHCW yn:

- Moderneiddio swyddfeydd, gan ddechrau gyda Thŷ Glan-yr-Afon yn ystod 2022/23, i ddarparu amgylchedd sy'n addas ar gyfer lle gweithio cydweithredol digidol modern;
- Cynnal arfarniad opsiynau (yn dilyn ymgynghori â staff) yn ymwneud â Swyddfa Mamhilad i ystyried:
    - A yw DHCW yn parhau i'w meddiannu; neu
    - A yw DHCW yn gadael ar ddiwedd y brydles bresennol
- Gweithio gyda Sefydliadau Partner a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) i ystyried trefniadau hybiau lleol addas;
- Os deuir i gytundeb i gau unrhyw swyddfeydd, yna yn dilyn y penderfyniad hwn ac yn unol â pholisi, cynhelir ymarfer ymgynghori â staff a chynrychiolwyr undebau llafur.

Awst 2022

ATODIAD A – Lluniau o'r Swyddfeydd



Kings Road, Swansea, SA1 8PH



21 Cowbridge Road East, Cardiff, CF11 9AD



Mamhilad Park Estate, Pontypool, NP4 0YP



Cowbridge Road East, Cardiff, CF11 9AD



Unit 3, Mold Business Park, Mold, CH7 1XY





17 Oldfield Rd, Bocam Park, Pencoed, CF35 5LJ


ATODIAD B - Cost fesul desg ar sail defnydd presennol (nifer y desgiau a ddefnyddir fesul safle)


	Costau Rhedeg	Rhent	Arwynebedd llawr mewn m^2	Desgiau mewn defnydd (ar sail presenoldeb cyfartalog Mehefin 22)	Cost gros fesul desg	Cost net fesul desg (rhent yn unig)
Media Point, Yr Wyddgrug	270,130	90,000	861.45	8	£33,766	£11,250
Parc Bocam, Pencoed	89,635	32,000	300.00	3	£29,878	£10,667
Tŷ Glan-yr-Afon (TGYA), Caerdydd	978,967	201,760	3632.60	88	£11,125	£2,293
Castlebridge 2, Caerdydd	124,440	44,572	247.40	4	£31,110	£11,143
Tŷ Mamhilad, Pont-y-pŵl	364,019	92,000	803.85	8	£45,502	£11,500
Tecniwm 2, Abertawe	288,063	73,000	847.27	7	£41,152	£10,429
Cyfanswm	**2,115,254**	**533,332**	**6692.57**	**118**	£17,926	£4,520


ATODIAD C – Presenoldeb yn ôl safle Mehefin 2022









Bocam Park
Number of People attending per day (June 2022)
10
8
6
4
2
0
06/06/2022
07/06/2022
08/06/2022
09/06/2022
10/06/2022
11/06/2022
12/06/2022
13/06/2022
14/06/2022
15/06/2022
16/06/2022
17/06/2022
18/06/2022
19/06/2022
20/06/2022
21/06/2022
22/06/2022
23/06/2022
24/06/2022
25/06/2022
26/06/2022
27/06/2022
28/06/2022
29/06/2022
30/06/2022
01/07/2022


Technium 2
Number of People attending per day (June 2022)
14
12
10
8
6
4
2
0
06/06/2022
07/06/2022
08/06/2022
09/06/2022
10/06/2022
11/06/2022
12/06/2022
13/06/2022
14/06/2022
15/06/2022
16/06/2022
17/06/2022
18/06/2022
19/06/2022
20/06/2022
21/06/2022
22/06/2022
23/06/2022
24/06/2022
25/06/2022
26/06/2022
27/06/2022
28/06/2022
29/06/2022
30/06/2022
01/07/2022


Mamhilad
Number of People attending per day (June 2022)
14
12
10
8
6
4
2
0
06/06/2022
07/06/2022
08/06/2022
09/06/2022
10/06/2022
11/06/2022
12/06/2022
13/06/2022
14/06/2022
15/06/2022
16/06/2022
17/06/2022
18/06/2022
19/06/2022
20/06/2022
21/06/2022
22/06/2022
23/06/2022
24/06/2022
25/06/2022
26/06/2022
27/06/2022
28/06/2022
29/06/2022
30/06/2022
01/07/2022

ATODIAD D

Gross Annual Emissions Table 2021 - 22													
Site	Electricity Indirect Emissions	Electricity WTT Emissions	Gas Direct Emissions	Gas WTT Emissions	Water Indirect Emissions (Supply)	Water Indirect Emissions (Treatment)	CO2e General Waste Landfill	CO2e General Waste WtE	CO2e Recyclable Waste	CO2e WEEE Waste	CO2e F-Gas	Total MtCO2e	Total MtCO2e per m²
Tŷ Glan-yr-Afon	113.847	29.645	20.951	3.588	0.147	0.256	0.000	0.186	0.206	0.000	0.000	168.826	0.050
Castlebridge	1.458	0.380	1.552	0.266	0.011	0.019	0.000	0.014	0.015	0.000	0.000	3.715	0.015
Bocam	4.545	1.183	N/A	N/A	0.064	0.110	0.065	0.000	0.008	0.000	0.000	5.975	0.021
Mamhilad	41.356	10.768	21.802	3.731	0.023	0.040	0.000	0.013	0.053	0.000	0.000	77.786	0.107
Mold	59.410	15.470	N/A	N/A	0.012	0.019	0.000	0.041	0.031	0.000	0.000	74.983	0.315
Technium II	11.059	2.880	5.238	0.896	0.036	0.064	0.000	0.046	0.054	0.000	0.000	20.273	0.024
Imaging Academy	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	0.146	N/A	0.146	0.001
Total MtCO2e	**231.675**	**60.326**	**49.543**	**8.481**	**0.293**	**0.508**	**0.065**	**0.300**	**0.367**	**0.146**	**0.000**	351.704	0.055